Cartref i'r ceffylau

Gosod esiampl / Amynedd / Tynerwch / Ffyddlondeb / Dyfalbarhad

Bu Megan yn swnian ers wythnosau. "Mam, plîs gai i geffyl. Mi fuaswn i wrth fy modd yn cael ceffyl?"
Ond na oedd yr ateb bob tro. "Mae gen ti gi, cath a bwji a dwyt ti ddim yn gallu gofalu am y rhain yn iawn. A pheth arall mae ceffyl eisiau digon o le i ymarfer a dim ond gardd fechan sydd gynno ni. Felly, am y tro olaf, Megan, na ydi'r ateb. Na...na...na."
Un diwrnod aeth Megan a'i ffrindiau am dro allan o'r pentref ar hyd y ffordd oedd yn arwain i'r dref. Wrth iddynt basio giât oedd yn arwain i un o'r caeau daeth ceffyl mawr atyn nhw a rhoddodd ei ben dros y giât i gael maldod.
"Mi fuaswn i wrth fy modd yn cael ceffyl fel hwn," meddai Megan wrth ei ffrindiau. "Lle fuaset ti yn ei gadw?" gofynnodd un o'r genethod iddi. "Mae hwn yn geffyl mawr, mawr. Ceffyl gwedd ydi'r enw ar y math yma o geffyl meddai taid."
"Mi oedd mam yn dweud fod yna yn yr ardal yma le i geffylau sydd wedi mynd yn hen," meddai Luned un o'r genod.
"Run fath â chartref i hen bobl, mae hwn yn gartref i hen geffylau," meddai Ceri dan chwerthin.
A dyna lle bu'r genethod yn mwytho'r hen geffyl gwedd. Ymhen dim roedd un arall wedi dod at y giât. Roedd yn amlwg fod y ddau geffyl wrth eu boddau, a'r genethod hefyd. Ar ôl cyrraedd adref dechreuodd Megan swnian unwaith yn rhagor. "Mam, mi ydw i wedi gweld ceffyl mawr yn y caeau ar y ffordd i'r dref. Mi oedd Luned yn dweud mai cartra i hen geffylau sydd yna. Fuaswn i yn cael dod ag un o'r ceffylau adref i'r ardd?"
"Paid â bod yn wirion," meddai Mam wrthi. "Mae'r ardd rhy fechan a'r ceffyl rhy fawr."
Doedd dim troi ar Megan. Roedd hi a'i bryd ar gael ceffyl. Pan ddaeth ei thad adref o'i waith dechreuodd Megan swnian unwaith yn rhagor.

"Paid ti â phoeni am gael ceffyl," meddai'n bwyllog. "Amser cinio heddiw mi es i weld perchennog y cartref i'r hen geffylau. Dyn dymunol iawn oedd y perchennog. Ac mae o'n dweud y cei di fynd yno bob dydd Sadwrn i weithio. Ond mwy na hynny fe gei di fabwysiadu un o'r ceffylau. A dyna ti £10 i ddechrau. Fe gei di roi yr arian i Mr Williams. Bydd yr arian yn helpu i brynu bwyd i'r ceffyl. Wyt ti'n hapus, rwan?"

Roedd Megan uwchben ei digon. Aeth i'w hystafell wely i freuddwydio am gael gweithio efo'r ceffylau. Roedd hi wedi meddwl am enw iddo – Nedw.

O Dduw, paid â gadael i mi gael fy ffordd fy hun bob tro. Amen.

- Fyddech chi'n hoffi cael ceffyl? Rhowch resymau pam.
- Beth ydi'ch barn chi am Megan "yn swnian" er mwyn cael?
- Oeddech chi'n meddwl fod yr hyn wnaeth ei thad yn syniad da?